OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3365

## Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005

## RHAN I

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “achos disgyblu” (“*disciplinary proceedings*”) yw unrhyw weithdrefn ar gyfer disgyblu cyflogeion a gaiff ei mabwysiadu gan awdurdod lleol;

ystyr “achwynydd” (“*complainant*”) yw person sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu berson sy'n dod o dan adran 26(a) i (e) o'r Ddeddf, neu berson syn gwneud sylwadau o dan baragraff 6 o Atodlen 7 i'r Ddeddf;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr “Cynulliad Cenedlaethol” (“*National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**);

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd San Steffan, yn Ddydd Gwener y Groglith, neu'n ddiwrnod sy'n wŷl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**2**);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Plant 1989;

ystyr “eiriolwr” (“*advocate*”) yw person sy'n darparu cymorth o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf;

ystyr “person annibynnol” (“*independent person*”) yw'r person, ac yntau heb fod yn un o aelodau nac yn un o swyddogion yr awdurdod lleol, sy'n cymryd rhan yn yr ystyriaeth o'r sylwadau ac mewn unrhyw drafodaethau dilynol, yn unol ag adran 26(4) o'r Ddeddf;

ystyr “Rheoliadau 1991” (“*the 1991 Regulations*”) yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991(**3**);

ystyr “y Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli” (“*the Advocacy Services Regulations*”) yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli (Plant) (Cymru) 2004(**4**)”;

(**1**) 2002 p.38.
(**2**) 1971 p.80.
(**3**) O.S. 1991/894; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/2033, 2001/2874.
(**4**) O.S. 2004/1448 (Cy.148).

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*") mewn perthynas â sefydliad neu asiantaeth—

(a) os yw swyddfa wedi'i phennu o dan reoliad 10(3) ar gyfer yr ardal lle y lleolir y sefydliad neu'r asiantaeth, yw y swyddfa honno;

(b) mewn unrhyw achos arall, yw unrhyw un o swyddfeydd eraill y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "swyddog cwynion" ("*complaints officer*") yw'r person a benodir o dan reoliad 5;

ystyr "sylwadau" ("*representations*") yw sylwadau o dan adran 24D neu adran 26 o'r Ddeddf neu baragraff 6(2) o Atodlen 7 iddi;

ystyr "ystyried sylwadau" ("*to consider representations*") yw ystyried sylwadau o dan y weithdrefn a geir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Mae unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn i'w roi'n ysgrifenedig a chaniateir ei anfon drwy'r post.

**Egwyddorion cyffredinol o ran ymdrin â sylwadau**

**3.**—(1) Rhaid i unrhyw weithdrefn sylwadau a sefydlir o dan y Ddeddf gael ei gweithredu'n unol â'r egwyddor y dylai lles yr achwynydd, pan wneir sylwadau gan berson y mae adran 24D neu 26(3)(a) yn gymwys iddo, gael ei ddiogelu a'i hybu.

(2) Pan ellir canfod beth ydynt, dylid ystyried dymuniadau a theimladau'r achwynydd.